

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16eg o Orffennaf 2019

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Einir Thomas

1. Gwr Gwadd Mr. Dean Clarke – Swyddog Datblygu Cymunedol

Cyflwynodd Mr Clarke ei hun fel Swyddog Datblygu Cymunedol gyda'r Llu Awyr yn Fali. Roedd yn gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer Cymuned y Llu Awyr a oedd yn cynnwys y personél milwrol a staff a theuluoedd pawb oedd yn gweithio yno. (oddeutu 340 yn y fyddin a 1,100 o weision sifil a gweithwyr contract. Roedd y cyfleusterau'n cynnwys nifer o glybiau, Grŵp Rhieni a Phlant Bach, 'Thrift Shop', Clwb Ieuencid, Y Gymdeithas Hedfan, 'Hive', Campfa, Cyfleusterau Chwaraeon a Sinema ac ati. Roedd rhai o'rain yn enwedig Y Grŵp Rhieni a Phlant Bach a'r Clwb Ieuencid yn cael eu mynychu'n rheolaidd gan drigolion lleol hefyd.

Yn ogystal, cynhelir nifer o ddigwyddiadau ar y Camp, bydd ymgynghoriad tua mis Ionawr pob blwyddyn a bydd rhestr yn cael ei llunio wedi hynna. Roedd trigolion lleol i'w hannog i fynychu'r rhain gan fod cael pobl allan yn y gymuned yn cwrdd â'i gilydd yn bwysig.

Dywedodd fod rhywfaint o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arbennig o amgylch y siop Cost-Cutter Store ac roedd y Llu Awyr yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ar hyn.

2. Ymddiheuriadau: Cyng. Dyfed Williams

3. Datganiad o ddiddordeb: - dim.

4. Cofnodion cyfarfod 18fed o Fehefin 2019:

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Victor Owen.)

5. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae Chwarae - roedd Valley Forge wedi dyfynnu £950+ TAW ar gyfer atgyweirio'r sleid. Gofynnwyd i'r clerc edrych am opsiwn arall ar gyfer cael ei drin. Roedd hefyd am drefnu i'r meinciau gael eu hatgyweirio, cael chwistrellu chwyn a

Llofnod.....Cadeirydd.....

diweddarau'r arwyddion ac ati.

2. Hysbysfwrdd – Roedd y mater hwn yn parhau
3. Lloches Fws – roedd Valley Forge wedi dyfynnu £1,920 + TAW ar gyfer cynhyrchu a gosod panel ochr newydd a hanner panel ôl. Roedd y clerc am ofyn am ddyfynbris arall.
4. Seddi Gwag – roedd dwy sedd yn parhau i fod yn wag.
5. Mater Cynllunio Lon Minffordd - cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Swyddog Gorfodi yn CSYM.
6. Hyfforddiant - byddai'r clerc yn paratoi cynllun hyfforddi a oedd i'w anfon at y Pwyllgor Safonau. Tynnwyd sylw at yr hyfforddiant ar-lein sydd ar gael gan Un Llais Cymru.
7. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

6. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:

6.1 Penderfyniadau cynllunio - dim

6.2 Ceisiadau Cynllunio

FPL/2019/173 Pen Caledog, Caergeiliog.

Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol i ddefnydd storio – dim gwrthwynebiad.

7. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

1. Datganiad Ysgrifenedig: Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Toiledau Cyhoeddus
2. Forwm Cyngor Tref a Chymuned – cyfarfod nesaf nos Iau 18 Gorffennaf 2019 am 7yh.
3. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith
4. Penodi Pencampwr y Gymraeg – Cyng. Victor Owen wedi ei benodi yn barod.
5. Ymgynghoriad Polisi Gosod Cyffredin Tai – y Clerc i ymateb i hwn.

8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Mehefin 2019 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Yn y banc ar 16.7.2019 Cyfrif Cyfredol £10,608.25 Cyfrif Cadw £3,928.64

9. Taliadau i'w gwneud

Cyflog y cleric (Mehefin)	£237.09	Ffioedd Archwilio (Allanol) 17/18	£274.05
GMS INV-5484	£108	Archwilydd Mewnol 18/19	£120

10. Adroddiadau Cynghorwyr

1. Roedd angen rhoi sylw i'r wal oedd wedi syrthio wrth Gerlan.
2. Cynigodd Cyng. Gwilym Jones reportio'r twll ar Burmah Road, Camp Fali.
3. Roedd Gwasanaethau GMS i'w atgoffa am dorri'r llwybrau troed.
4. Roedd Cyng. Victor Owen wedi dechrau glanhau'r llochesi bysiau a byddai'n rhoi gwybod i'r cleric am unrhyw ddiffygion.

11. Cyfarfod Nesaf – 17eg o Fedi 2019

Rhoddyd pwerau i'r Cadeirydd a'r Clerc weithredu ar unrhyw faterion brys yn y cyfamser

Llofnod.....Cadeirydd.....